



Adroddiad Swyddogion i Gyngor yr Undeb **Dydd Llun 30 Ebrill, 6yh.** **Prif Ystafell, Undeb y Myfyrwyr**

Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb

Ers cyfarfod diwethaf y cyngor, rydyn ni fel undeb myfyrwyr wedi bod drwy ein cyfnod prysuraf o'r flwyddyn. Etholiadau! Dyma, heb amheuaeth, yw amser pwysicaf y flwyddyn, gan y bydd yn penderfynu pwy rydych chi am eu gweld yn eich arwain am y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Mae'n bleser gen i ddweud ein bod ni eleni, fel corff myfyrwyr, wedi torri ein record ein hunain, a hoffwn longyfarch y tîm a weithiodd yn galed gydol yr wythnos i sicrhau bod 35% ohonom yn pleidleisio yn yr etholiadau eleni. Yn ogystal â hyn, hoffwn longyfarch pawb sydd wedi sefyll yn yr etholiad, gan i ni hefyd dorri'r record am y nifer fwyaf o ymgeiswyr yn yr etholiad. Mae hwn yn drosolwg mwy cyffredinol o'r hyn rydyn ni'n ei wneud fel Undeb y Myfyrwyr, gan mai ni yw prif lais myfyrwyr Aberystwyth. Gallaf ddweud yn onest fy mod i mor falch o'r cynnydd a wnaed oherwydd bod y nifer fwyaf erioed ohonom wedi pleidleisio yn yr etholiadau eleni.

Oherwydd amseriad y cyngor, rwyf wedi ceisio cynnwys cymaint o wybodaeth ynglŷn â fy ngwaith â phosibl.

I ddechrau, rwyf wedi bod yn gweithio ar y **Polisi Wi-Fi** drwy gyfarfod â Phennaeth y Gwasanaethau Gwybodaeth ac aelodau staff perthnasol eraill. Yn anffodus, mae'r cynnydd wedi cael ei arafu oherwydd natur cyllid y Brifysgol ac nid yw'r arian ar gael ar hyn o bryd. Rwyf wrthi'n llunio achos busnes gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth ac yn ceisio cynnwys aelodau o'r gymuned leol wrth fwrw ymlaen â'r fenter hon. Rwyf yn gobeithio gallu parhau i wneud cynnydd cyson â'r prosiect hwn ac y byddaf yn gallu rhoi mwy o adborth pan fyddaf wedi cyflawni ymchwil i'r mater.

Porthorion o amgylch y Campws. Rwyf wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd gyda Gwasanaethau'r Campws a'r swyddfa Llety ynglŷn â lefelau staffio Porthorion ar y campws a thîm Diogelwch y Safle. Codwyd yr ymholiad yn wreiddiol gan fyfyrwr oedd â phroblem oherwydd diffyg staffio ar gael iddynt pan ddigwyddodd rhywbeth mewn adeilad ar ôl oriau gwaith y Porthorion. Ar ôl rhai cyfarfodydd difyr ac addysgiadol am y ddarpariaeth gyfredol gan y Brifysgol, rwyf wedi cael sicrwydd bod gennym dîm Diogelwch Safle 24/7 a fydd bob amser ar ben y ffôn (01970 622900) sy'n caniatáu i'r Brifysgol ymdrin ag unrhyw broblemau'n ddioed.

Dyffodol yr Hen Goleg. Un o'r nifer o fyrddau prosiect yr wyf yn eistedd arno yw bwrdd Prosiect yr Hen Goleg. Amcan presennol y prosiect yw gweld yr Hen Goleg yn cael ei adnewyddu o fewn y flwyddyn nesaf, gyda chyllid ar gael oherwydd gwaith caled gan DARO a'u tîm i sicrhau arian o gronfa Treftadaeth y Loteri. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi eu bod nhw wedi penodi rheolwr prosiect newydd sef Jim O'Rourke, sydd wedi bod yn hynod o awyddus i gynnwys adborth myfyrwyr yn y broses o ailddatblygu'r adeilad. Yn gysylltiedig â hyn, mae ein Cymdeithas Cyn-Fyfyrwyr ar hyn o bryd yn defnyddio'r Hen Goleg ar gyfer eu cyfarfodydd, ac mae'n tyfu mewn niferoedd dros y blynyddoedd. Yr wyf yn falch o ddweud bod eu gwaith caled gydag un o'n cyn Lywyddion, bellach eu His-Lywydd, a gwelwyd cynnydd o ran ymgysylltiad ar draws y wlad gyda mwy a mwy o Alumni yn ymgysylltu â'u cymdeithas.

Seddi toiledau. Mae'r sefyllfa bresennol o ran seddi toiledau wedi cael ei godi nifer o weithiau yn y gorffennol gan Gorff y Myfyrwyr. Ers mis Medi, a hyd yn oed cyn hynny, yr wyf wedi bod mewn trafodaethau â'r Gwasanaethau Masnachol, Gwasanaethau Campws ac Ystadau ynglŷn ag adnewyddu sylfaenol neu adnewyddiad llawn. Y sefyllfa bresennol, tuag adeg y Pasg, yw nad oedd arian ar gael o fewn yr Adran Fasnachol i fuddsoddi ynddyn nhw ar hyn o bryd oherwydd yr ailstrwythuro sy'n digwydd o fewn yr adran honno. Rwyf wedi codi'r mater hwn sawl gwaith eisoes eleni a byddaf yn codi'r mater eto o fewn yr wythnosau nesaf. Oherwydd natur Cynllun Gwella'r Safle (CGS) a'r gwaith



sydd wedi cael ei wneud arno, mae nifer o brosiectau adnewyddu a chynlluniau wedi mynd yn fwy anodd eu cyflawni o fewn fy nghyfnod fel Swyddog Datblygu.

Sefyllfa bresennol CGS. Mae'r brifysgol ar hyn o bryd yn cael ei hailstrwythuro'n sylweddol, gyda lefel is mewn staffio ar draws yr holl adrannau o fewn y brifysgol. Yn bennaf, mae'r gostyngiad hwn yn sgil y cwmp yn niferoedd y myfyrwyr dros y 4 blynedd diwethaf, a'r ffaith bod CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud arbedion o £11.4m yn ystod 2017-2019; i ddechrau, £6m yn y flwyddyn academaidd 2017-18 a £5.4m yn 2018 -19. Un o brif bwyntiau'r rhan hon o'r ailstrwythuro yw gostwng y nifer o Rag Is-Ganghellorion o 4 i 2, gyda llawer o swyddogaethau'n cael eu huno er mwyn cael gwared ar rolau rheolaeth lefel ganolig. Yr effaith fwyaf ar fyfyrwyr fydd diwygio'r Athrofeydd; mae'r rhain yn cael eu lleihau o 6 Athrofa i 4 neu 3 o bosib yn dilyn cyfarfod Senedd y Brifysgol.

Yr wyf yn bersonol o blaid y cynigion ond mae gennyf bryderon ynglŷn â rhai camau a chynlluniau uno o ran cymorth i fyfyrwyr a gyrfaoedd; byddaf yn codi'r materion hyn gyda'r pwyllgor gwaith ar lefel uchaf y Brifysgol

Os yw'r mater hwn yn rhywbeth yr hoffech fwy o wybodaeth amdano, byddaf yn cynnal grwpiau ffocws yn yr ystafell bwyllgor ar ddydd Mawrth 1af Mai am 4pm a 6pm ar gyfer cyfarfodydd byr lle gallwch godi unrhyw bryderon sydd gennych.

Mewn newyddion arall, rwyf wedi cymryd cyfanswm o 14 diwrnod o wyliau ers mis Mawrth, ond mae hyn yn bennaf oherwydd fy mod i wedi ail-sefyll ar gyfer y Llywyddiaeth yn ystod cyfnod yr etholiadau, ac wedi cymryd gwyliau byr. Hefyd roedd yr adeilad ar gau dros y Pasg.

Roedd yn bleser pur cael eich gwasanaethu fel Swyddog Datblygu'r Undeb yn y flwyddyn academaidd 2017-18 ac rwy'n ffodus i ddweud fy mod wedi cael fy ail-ethol fel eich Llywydd ar gyfer 2018-19. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio'n galed dros Gorff y Myfyrwyr a defnyddio'r berthynas rwyf wedi'i sefydlu eleni i sicrhau ein bod yn cael yr hyn yr ydym ni ei eisiau fel Myfyrwyr yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Fel arfer, mae croeso i chi afon e-bost ataf ar prdstaff@aber.ac.uk / sudevelopment@aber.ac.uk neu gallwch alw heibio i fy ngweld, gan fy mod i bob amser yn falch o glywed eich barn a gweithio ar hynny hyd orau fy ngallu.

Molly-Jean Longden, Swyddog Llesiant

Mae Molly wedi bod yn cydweithio'n agos â'n tîm Cynrychiolaeth a Chefnogaeth i greu arolwg Caru, Casáu, Barnu a fwriadwyd i dderbyn eich adborth ar eich tai a fflatiau. Mae hwn yn gam sylweddol fydd yn caniatáu i ni roi gwybod i fyfyrwyr ble mae'r eiddo gorau, a phwy yw'r asiantau gosod a'r landlordiaid gorau. Mae hi hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i ymchwilio i erthyliadau yng Nghymru ac mae wedi cyflwyno cynnig i'r cyngor hwn ar gyfer ystyriaeth. Ynghyd â hyn, mae Molly wedi bod yn gweithio gyda Chymorth i Fyfyrwyr (Doug Keer a John Harrington) i drefnu ein Cynhadledd Fentora gyntaf erioed mewn cydnabyddiaeth o'r pethau anhygoel y mae ein myfyrwyr yn eu gwneud ar gyfer ein cynlluniau mentora. Maent bellach yn edrych ar ffyrdd o wella'r cynllun ei hun gyda chymorth o'r adborth a ddarperir yn y sesiwn hon. Cynhaliwyd yr etholiadau, ac erbyn hyn mae gennym ni dîm o swyddogion at y flwyddyn nesaf, felly bydd hyfforddiant yn dechrau ar gyfer y flwyddyn newydd yn fuan iawn. Yn sgil hynny, mae Molly yn gweithio ar gynllunio ei hymgyrchoedd ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cynnal ymgyrch sylweddol i fenywod! Yn olaf, wythnos straen arholiadau. Bu ychydig o anawsterau, ond peidiwch ag ofni, bydd y cŵn bach yn ôl ar 12fed Mai, a byddwn yn gofyn am rodd o £1 fel y gallwn ni enwi ci bach!! Mwynhewch eich wythnos, rygbi 7-bob-ochr os ydych chi'n cystadlu, a pheidiwch â phryderu'n ormodol ynglŷn â'r arholiadau; rydym bob amser yma am sgwrs os ydych chi ein hangen ni.



Jessica Williams, Swyddog Cyfleoedd

Mae Jess wedi bod yn cynnal ein digwyddiad mwyaf llwyddiannus, sef Superteams, gyda phenwythnos y dynion eleni'r penwythnos cyntaf erioed i gael ei ohirio oherwydd y Bwystfil o'r Dwyrain - Storm Emma. Yn anffodus, golygodd hyn fod Superteams wedi para am fis i yn hytrach na phythefnos, ond unwaith eto, fe lwyddon ni i gynnal y digwyddiad gan ei wneud yn llwyddiant ysgubol. Mae hi wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hamser un aelod staff yn brin yn y Swyddfa Gyfleoedd gan fod Lucie, fel y byddwch efallai'n gwybod, wedi bod ar absenoldeb Mamolaeth, ac mae hi wedi dod â'i babi hardd Libby i mewn i gwrdd â'r Tîm Cyfleoedd yn yr UM. Llongyfarchiadau iddi hi a Gav. Oherwydd hyn, mae Jess wedi treulio llawer o amser yn gwneud gwaith gweithredol, oherwydd ei bod un aelod staff yn brin. Mae hi wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y Rhyngolgampau, Superteams a'r seremonïau Gwobrwyo a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae Jess am ddiolch i'r staff yn yr UM am yr holl help a roddwyd iddi dros y misoedd diwethaf, ac mae'n edrych ymlaen at y gystadleuaeth Rygbi 7-bob-ochr sydd i ddod!

Gwion Williams, Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA

- UMCA wedi cynnal Wythnos RAG i godi arian tuag at Uned Gofal Dwys Ysbyty Bronglais. Codwyd (3000) gyda digwyddiadau fel Noson Bingo, Trip Dirgel (i Llanidloes) a Swn Ffiadd.
- Pasiwyd polisi yn Cyfarfod Cyffredinol UMCA i newid Pwyllgor a Strwythur UMCA. Bydd y pwyllgor yn symud lawr o 17 i 8 gyda Senedd UMCA yn cael ei greu.
- Mae Cymdeithas Ail-Iaith UMCA wrthi'n cael ei greu flwyddyn nesaf. Bwriad creu hyn ydy cynnig opsiwn i fyfyrwyr sydd yn dysgu'r iaith a rhai sydd ddim yn hyderus yn ei siarad, i gymdeithasu yn y Gymraeg.

Emma Beenham, Swyddog Materion Academaidd

- Cyd-gynhaliodd gynhadledd Cymru-gyfan ar gyfer cynrychiolwyr gyda Wise Cymru
- Dechreuodd ein prosiect Cysylltu â Chynrychiolydd, sy'n gam arall tuag at wella ein system recriwtio ar gyfer cynrychiolwyr academiaidd, ochr yn ochr ag ysgrifennu polisi Cynrychiolwyr newydd
- Mae hi wedi gorfod ymdrin â'r rhan fwyaf o gwynion ac ymholiadau ein myfyriwr o amgylch streic ddiweddar UCU, sydd wedi cymryd rhan helaeth o'i hamser yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Fel Undeb, roedden ni wedi pasio cynnig o gefnogaeth i'r streiciau. Fel tîm swyddogion, ymunom â'r rali gyhoeddus a gynhaliwyd yma yn Aberystwyth, yn ogystal â chynnig te a choffi bob dydd i aelodau staff oedd ar streic, i ddangos ein cefnogaeth
- Mynychodd Gynhadledd UCM Cymru
- Mae hi wedi llwyddo i lobio'r brifysgol i gytuno i gyhoeddi eu hincwm a'u gwariant o ran ble mae'r arian yn cael ei wario. Bydd yn ddefnyddiol i fyfyrwyr weld ble mae'r gwariant, yn arbennig o ran y diswyddiadau sy'n deillio o'r Cynllun Strategol